Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
Fin(4)-15-15 P5

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Mehefin 2015

Annwyl Jocelyn

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad diweddaraf Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol at y Pwyllgor Cyllid, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

Mae llawer o'r dangosyddion yn nodi bod pethau'n gwella o'u cymharu â'r un cyfnod y llynedd, a lle nad yw hynny'n digwydd, mae'r Comisiwn yn cymryd camau i sicrhau gwelliannau. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau ar dudalennau 2 a 3 yn yr adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Caiff ei gyhoeddi ar wefan y Comisiwn. O hyn allan, mae'r Comisiwn wedi cytuno y bydd yn cynhyrchu'r adroddiad ddwywaith y flwyddyn; bydd yr adroddiadau bellach yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill a Medi ac yna'r cyfnod rhwng Ebrill a Mawrth.

Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir

Claire

**Claire Clancy**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Claire.Clancy@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Claire.Clancy@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill 2014 – Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
**Cymru**

National
Assembly for
**Wales**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:


**Cyfathrebu'r Cynulliad**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**


Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.


**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill 2014 – Mawrth 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd; a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad: Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC a Rhodri Glyn Thomas AC. Mae David Melding, y Dirprwy Lywydd, yn mynd i gyfarfodydd y Comisiwn hefyd. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16** yn amlinellu ein nodau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, sef: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â phobl Cymru; hyrwyddo Cymru; a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn.  Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-16** - cynllun corfforaethol a ddatblygwyd i roi mwy o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, ein blaenoriaethau ac elfennau amrywiol o lywodraethu.

## Adrodd am berfformiad

Dyma'r trydydd adroddiad a'r un olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15, ac mae'n rhoi gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015, gan gynnwys:

– uchafbwyntiau perfformiad, yn ôl nod strategol;

– crynodeb ar ffurf goleuadau traffig sy'n nodi'r perfformiad cyffredinol o dan bob un o'n nodau strategol;

– dadansoddiad manylach o'r dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb hwnnw; a

– chymaryddion priodol, o ystod o ffynonellau, pan fo hynny'n bosibl.

## Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Mae canlyniadau arolwg adborth yr Aelodau 2014 yn ategu'r lefel uchel o berfformiad sydd wedi bod yn gyson mewn amrywiaeth o ddangosyddion yng nghyswllt y nod hwn, gan ddangos lefelau cyffredinol uchel o foddhad ynghylch y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau.  Mae'r cynnydd yn nifer y dysgwyr Cymraeg yn haeddu sylw. Ategwyd y datblygiad hwn drwy ehangu'r gwasanaeth tiwtora Cymraeg sy'n amlwg yn boblogaidd ac yn effeithiol iawn ymhlith Aelodau a staff. Ni fydd canlyniadau arolwg boddhad blynyddol yr Aelodau ar gael tan fis Mehefin-Gorffennaf 2015, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, ac felly cyhoeddir y canlyniadau diwygiedig yn adroddiadau 2015–2016.

Cynhaliwyd ymarfer i edrych ar ddewisiadau Aelodau unigol sy'n gweithio ar bwyllgorau i drafod sut y maen nhw'n gweithio a sut y maen nhw'n defnyddio'r cymorth a ddarperir gan y Comisiwn. Bellach, mae'r timau sy'n cynorthwyo'r Pwyllgorau'n gwneud newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir ar sail dewisiadau unigol. Bydd y data'n cael eu cydgasglu fel bod tueddiadau ehangach yn gallu llywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio yn y dyfodol.

## Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Mae nifer yr ymwelwyr ar deithiau a lefelau boddhad ymwelwyr wedi parhau i gynyddu yn ystod y flwyddyn.  Mae'r adborth a gafwyd gan ymwelwyr yn gadarnhaol iawn ac yn dangos bod grwpiau'n gadael â dealltwriaeth llawer gwell o'r Cynulliad, y ffordd y mae'n gweithio a'r pynciau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd.

Cynhaliodd tîm allgymorth y Cynulliad wythnos ymgysylltu lwyddiannus iawn yn Wrecsam rhwng 21 a 28 Mawrth. Roedd mwy o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol yn sgil y digwyddiad hwn nag unrhyw un o ddigwyddiadau eraill y Cynulliad erioed. Denwyd 232 o ddilynwyr i'r cyfrif Twitter corfforaethol a chynyddodd ymweliadau ag YouTube 99 y cant ym mis Mawrth o gymharu â mis Chwefror.

Eleni, mae dros 3,000 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y sgwrs genedlaethol am ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Yn ystod wythnos #SeneddWrecsam, cynhaliwyd diwrnod digidol yng Ngholeg Cambria pan ymwelodd dros 300 o fyfyrwyr â bws y Cynulliad i drafod eu barn ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio.

Mae'r Cynulliad yn dal i gael cydnabyddiaeth o'r tu allan yng nghyswllt hygyrchedd a chynhwysiant. Ym mis Ionawr 2015, cyrhaeddodd y Cynulliad y pedwerydd safle yn rhestr Stonewall o 100 cyflogwr gorau'r DU.  At hynny, roedd y Cynulliad ar frig rhestr Stonewall o gyflogwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Perfformiad o ran defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth

Mae ein perfformiad o ran y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos pa mor effeithiol yw ein trefniadau rheoli arian, wrth i ni gyflawni ein targedau blynyddol ar gyfer gwariant yn erbyn y gyllideb o fewn y proffil (o fewn 1 y cant), ac rydym wedi rhagori ar ein targed Gwerth am Arian i arbed £500,000.

Ym mis Rhagfyr 2014, daeth strategaeth rheoli carbon y Comisiwn i ben, a sicrhawyd gostyngiad o 35 y cant yn erbyn targed i leihau allyriadau ynni 40 y cant. Mae'r Cynulliad wedi llwyddo i gadw ardystiad Lefel 5 Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd am y seithfed flwyddyn yn olynol hefyd. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi galw hyn yn enghraifft o berfformiad sy'n arwain y blaen yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddweud y gall y Comisiwn fod yn falch o'r gostyngiadau sydd wedi'u sicrhau ar sail targed heriol iawn. Er gwaethaf y perfformiad arbennig hwn, mae'r Comisiwn wedi nodi cyfleoedd i sicrhau arbedion pellach o ran perfformiad ein hadeilad, gan ystyried bod prisiau ynni yn dal i newid yn gyson a'r ansicrwydd ynghylch cyflenwadau ynni'r dyfodol. Yn sgil hynny, ym mis Mehefin 2014 cymeradwyodd y Comisiwn darged newydd i leihau allyriadau ynni 30 y cant ymhellach erbyn 2021 o gymharu â llinell sylfaen blwyddyn ariannol 2012-13. Mae cynnydd yn erbyn y targed hwn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn o dan 'cyfanswm ôl troed ynni' a bydd hyn yn parhau i gael ei nodi yn adroddiadau'r dyfodol.

## Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol**, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn flynyddol, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **ystod o wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i brif bolisïau sefydliadol** ar wefan y Cynulliad.

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau ar **fynediad at wybodaeth** ar gael ar wefan y Cynulliad.

# Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol).

| Rhif Grŵp KPI | Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Sylwadau - manylion ar dudalennau 6–9 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Boddhad Aelodau | oren | gwyrdd | Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014. Cynhelir arolwg boddhad nesaf yr Aelodau ym mis Mehefin/Gorffennaf 2015. |
| 2 | Prydlondeb a Chyflenwi Gwasanaethau | gwyrdd | gwyrdd | Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb. Mae targedau mwy heriol wedi'u pennu yn ddiweddar ar gyfer cyhoeddi papurau pwyllgor a thrafodion pwyllgor. |
| 3 | Datblygiad Proffesiynol | gwyrdd | oren | Mae'r un nifer o Aelodau Cynulliad newydd a staff cymorth newydd yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus ac mae nifer y dysgwyr Cymraeg wedi cynyddu. |
| 4 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | gwyrdd | gwyrdd | Ymgorffori ymhellach y cynnydd tuag at "bwyllgorau o'r radd flaenaf". Technoleg wedi'i huwchraddio yn gwella mynediad at wybodaeth a thrafodion. Arbedion a sicrhawyd drwy ddefnyddio adnoddau cyfieithu gwell. |

| Rhif Grŵp KPI | Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Sylwadau - manylion ar dudalennau 9–13 |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Boddhad Aelodau | - | oren | Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol. |
| 6 | Ymgysylltu â'r Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Mae niferoedd ymwelwyr yr un fath ac mae lefelau boddhad ymwelwyr wedi gwella (sgorau da/boddhaol – 90%). |
| 7 | Proffil Allanol y Cynulliad | gwyrdd | gwyrdd | Cafwyd cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig ar Twitter, YouTube a Senedd.tv. |
| 8 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu) | gwyrdd | gwyrdd | Lefel dda o ymgysylltiad â gwaith y Cynulliad, yn enwedig o ran pobl ifanc a gwaith y pwyllgorau. Cynnydd sylweddol o ran ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol. |

| Rhif Grŵp KPI | Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 | Ebrill 2014 – Mawrth 2015 | Sylwadau - manylion ar dudalennau 14–17 |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Boddhad Aelodau | gwyrdd | gwyrdd | Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh. |
| 10 | Perfformiad Cyllidebol | gwyrdd | gwyrdd | Sefyllfa gref o ran % y tanwariant a ragwelwyd a gwariant yn erbyn proffil. Cyrhaeddwyd y targed Gwerth am Arian blynyddol yn ystod mis Rhagfyr. Rydym yn newid ffocws i ganolbwyntio ar arbedion ar gontractau a gwasanaethau. |
| 11 | Staff | oren | oren | Mae'r gyfradd absenoldeb salwch yn parhau'n is na chyfartaledd y sector. Mae dulliau adrodd mwy cywir yn caniatáu gwell ddealltwriaeth o resymau absenoldeb. |
| 12 | Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh | oren | oren | Roedd gostyngiad yn ein perfformiad cyffredinol ar dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer ymdrin ag achosion ac aed i'r afael â phroblemau er mwyn datrys hyn. Mae'r sgôr boddhad cwsmeriaid yn uchel o hyd. |
| 13 | Llywodraethu | gwyrdd | gwyrdd | Mae taliadau'n parhau o fewn yr amser targed. Gwelliant o ran % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu hateb ar amser (94% yn erbyn targed o 100%). |
| 14 | Cynaliadwyedd | oren | gwyrdd | Cyflwynwyd targed newydd ar gyfer lleihau allyriadau ynni 30% arall erbyn 2021. |
| 15 | Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad) | gwyrdd | gwyrdd | Blaenoriaethau'r flaenraglen fuddsoddi a'r cynllun cynnal a chadw wedi'u cwblhau. |

## Allwedd:

**COCH:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**OREN:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio'n sylweddol ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**GWYRDD:** Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu yn ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 1 | Y Cyfarfod Llawn | 7.70 yn 2013 | 8.00 | 7.70 | 7.70 | ⇨ | Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos bod pethau wedi gwella, neu na fu newid, ers y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013. |
| | Cyfarfodydd pwyllgor | 7.90 yn 2013 | 8.00 | 7.90 | 7.90 | ⇨ | |
| | Gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith | 6.20 yn 2013 | 8.00 | 6.20 | 8.90 | ⇧ | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 2 | % y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | dd/b | 100% | dd/b | 95.12% | - | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Nid oes cymharydd gan fod y mesur wedi newid i ddangos y terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor yn hytrach na'r terfyn amser yn y Rheolau Sefydlog, sef o leiaf 2 ddiwrnod cyn cyfarfodydd. Gwelliant ar y cyfartaledd ym mis Rhagfyr, sef 93.74%. |
| | % yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | 98% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 98% | 99% | ⇧ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. |
| | % Cofnod Trafodion y cyfarfod llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | 100% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 100% | 99% | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. |
| | Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfod llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn | 12 allan o 350 (3.43%) yn 2013-14 (r) | Dim | 12 allan o 350 (3.43%) | 5 allan o 368 (1.4%) | ⇧ | Cyfanswm Ebrill-Mehefin. |
| | % Cofnod trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | dd/b | 100% | dd/b | 96% | - | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Newidiwyd y targed o 14 diwrnod i 5 diwrnod felly nid oes cymharydd. Gwelliant ar y cyfartaledd ym mis Rhagfyr, sef 94.5%. |
| | % y rhestrau wedi'u didoli ar gyfer trafodion Bil yng Nghyfnod 3 a gyhoeddwyd erbyn terfyn amser y Rheolau Sefydlog | dd/b | >2 ddiwrnod o drafod | dd/b | 100% | ⇨ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Gweler yr amser a dreuliwyd ar gyfnodau pob darn o ddeddfwriaeth yn y graff yn yr Atodiad. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

**Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf**

| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 3 | Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg | 34 (fel ym mis Mawrth 2014) | Cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg | 34 | 45 | ⇧ | Fel ym mis Mawrth. Mae dangosydd newydd ar gyfer capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect i wella gwasanaethau dwyieithog. |
| | Cyfanswm yr Aelodau Cynulliad/staff cymorth newydd sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus | 41 o Aelodau Cynulliad / 155 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn 2013-14. | Cynnal nifer Aelodau'r Cynulliad / staff cymorth sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus | 41 o Aelodau Cynulliad / 155 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | 40 o Aelodau Cynulliad / 166 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | ⇨ | Mae nifer yr Aelodau Cynulliad / staff cymorth newydd sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gynnal yn ystod y flwyddyn (gyda chynnydd bach yn nifer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n cymryd rhan). Mae nifer yr Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth sy'n ail-ymgymryd â datblygiad proffesiynol wedi gostwng rhywfaint o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y rhai a wnaeth ailymgymryd â datblygiad proffesiynol rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015 o gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf. |
| | Nifer Aelodau'r Cynulliad/staff cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ailymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus | 407 o Aelodau Cynulliad / 641 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn 2013-14 | | 407 o Aelodau Cynulliad / 641 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | 347 o Aelodau Cynulliad / 605 o staff cymorth Aelodau'r Cynulliad | ⇩ | |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cymharydd** | **Targed** | **Ebr 2013- Maw 2014[1]** | **Ebr 2014 – Maw 2015[1]** | | **Naratif** |
| ***Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*:** | | | | | | | |
| 4 | Galluogi'r Cynulliad i fod mor effeithiol â phosibl drwy'r gefnogaeth a ddarperir gennym, a thrwy'r camau nesaf yn ein strategaeth TGCh | - | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Cynhaliwyd ymarfer i edrych ar ddewisiadau Aelodau. Cafwyd cyfarfodydd ag Aelodau unigol sy'n gweithio ar bwyllgorau i drafod sut y maen nhw'n gweithio a sut y maen nhw'n defnyddio'r cymorth a ddarperir gan y Comisiwn. Bellach, mae'r timau sy'n cynorthwyo'r Pwyllgorau'n gwneud newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir ar sail dewisiadau unigol. Bydd y data'n cael eu cydgasglu fel y gall tueddiadau ehangach lywio'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio yn y dyfodol. Mae'r broses o sicrhau bod cymorth ychwanegol i gefnogi gwaith craffu deddfwriaethol yn mynd rhagddi, a bydd hynny'n sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'r mannau allweddol sydd o dan bwysau.<br><br>Mae'r gwaith o adnewyddu'r offer a'r feddalwedd TGCh yn y Siambr wedi'i ymestyn i 2016, yn unol â'r hyn y cytunodd y Comisiwn arno ym mis Mawrth 2015.<br><br>Gan fod risgiau a phroblemau wedi codi gydag un o gyflenwyr y brif system, nid oedd modd cyflawni'r dyddiad targed yn nhymor yr haf 2015 mwyach. Mae'r prosiect yn ystyried pa welliannau y gellir eu gwneud i'r desgiau yn ystod yr haf eleni fel cam interim i wella gweithfannau'r Aelodau yn y Siambr. |
| | Gwasanaethau dwyieithog gwell | - | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Lansiwyd ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ym mis Ebrill 2015.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad o sgiliau Cymraeg staff a fydd yn gymorth mawr i ni wrth gynllunio a gwella gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid.<br><br>Mae'r gwasanaeth tiwtora Cymraeg wedi'i ehangu ac mae'n boblogaidd ac yn effeithiol iawn ymhlith yr Aelodau, staff a chontractwyr yn ôl pob golwg. Mae cynhyrchiant yn parhau i gynyddu o ran cyfieithu testun. Mae proses recriwtio yn mynd rhagddi i ddod â'r tîm i'w gapasiti llawn. Bydd hyn yn ein galluogi i ateb y galw cynyddol am gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| 4 | Y tu hwnt i'r Pedwerydd Cynulliad | - | Gwyrdd | dd/b | Gwyrdd | ⇨ | Mae gwaith ymgynghori'r Bwrdd Taliadau wedi dod i ben ac mae'n paratoi i lansio ei benderfyniad ynghylch taliadau a chymorth ariannol i Aelodau'r Pumed Cynulliad tua diwedd mis Mai.<br>Mae'r Llywydd a'r Comisiwn yn gweithio i sicrhau bod Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill yn ystyried buddiannau'r Cynulliad er mwyn dylanwadu ar gyd-destun cyfansoddiadol y DU, sy'n newid, a datganoli pwerau newydd i'r Cynulliad. Ar ôl sicrhau cytundeb pob un o bleidiau'r Cynulliad â llawer o flaenoriaethau'r Llywydd ym mhroses Dydd Gŵyl Dewi, bellach rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod y pwerau a'r cyfrifoldebau hynny'n cael eu gweithredu'n effeithiol. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod y newid arfaethedig i fodel cadw pwerau yn gywir i Gymru.<br>Mae ein paratoadau ar gyfer diddymu'r Pedwerydd Cynulliad a throsglwyddo i'r Pumed Cynulliad eisoes ar waith. |

| Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 5 | Ymgysylltu â phobl Cymru | - | 8.00 | - | 6.70 | - | Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Newidiwyd y cwestiwn, felly nid oes cymharydd ar gyfer arolwg 2013. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ymgysylltiad yn y Cynulliad, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 6 | Nifer yr ymwelwyr â'r Senedd/Pierhead | Cyfanswm o 168,505 yn 2013-14 | Cynnydd o gymharu â 2013-14 | 168,505 | 168,348 | ⇨ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. Mae nifer yr ymwelwyr wedi parhau'r un fath gyda 7018 o ymwelwyr y mis ar gyfartaledd o gymharu â 7021 o ymwelwyr y mis ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. |
| | Nifer yr ymwelwyr ar deithiau | Cyfanswm o 15,466 yn 2013-14 | | 15,466 | 17,168 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. Mae nifer yr ymwelwyr ar deithiau yn parhau i gynyddu gyda 1,431 y mis ar gyfartaledd o gymharu â 1,289 y mis ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. |
| | Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd | Cyfanswm o 370 yn 2013-14 | Cynnydd o gymharu â 2013-14 | 370 | 296 | ⇩ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. Mae nifer y digwyddiadau ar yr ystâd wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, pan gafwyd nifer anarferol o uchel o ddigwyddiadau. Fodd bynnag, mae'r cyfanswm eleni 90 yn fwy na 2012-13. |
| | Lefelau boddhad ymwelwyr | 87% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 80% sgorau da/boddhaol | 87% | 90% | ⇧ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Mae'r sgôr ar gyfartaledd gan ymwelwyr â'r Senedd yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. |
| | Digwyddiadau a drefnwyd ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru | Cyfanswm o 5 2013-14 | - | 5 | 6 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 7 | Adroddiadau pwyllgor a hyrwyddwyd gan y cyfryngau neu'r wasg | 81% ar gyfartaledd yn 2013-14 | 100% | 81% | 96% | ⇧ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Ym mis Mawrth 2015, cafodd chwe adroddiad pwyllgor eu hyrwyddo ond dim ond pedwar ohonynt a gafodd sylw yn y cyfryngau. Mae'n bosibl bod rhai adroddiadau yn cael mwy o sylw oherwydd dulliau hyrwyddo mwy rhagweithiol a system well ar gyfer monitro'r cyfryngau. |
| | Yr amser a dreulir ar gyfartaledd yn edrych ar ein tudalennau ar y we | 3 munud 59 eiliad ar gyfartaledd yn 2013-14 | Anelir at gynyddu hyn bob cyfnod | 3mun 59eiliad | 2mun 23eiliad | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Mae dangosydd yn cael ei ddatblygu i fesur achosion o ryngweithio â gwefan y Cynulliad yn well. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer proffil allanol y Cynulliad (parhau), gan gynnwys*** | | | | | | | |
| 7 | **Rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol:** | | | | | | |
| | Facebook - hoffi / ymgysylltu | 2,610 wedi ein 'hoffi' erbyn mis Mawrth 2014 | Anelir at gynyddu hyn bob cyfnod | 2,610 wedi ein 'hoffi' | 3396 / 3891 | ⇧ | Cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth. O fis Ebrill 2014, mae cyfanswm y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad ar Facebook (hoffi, sylwadau a rhannu) wedi'i ychwanegu. Mae nifer y bobl sy'n ein 'hoffi' yn parhau i gynyddu. |
| | Twitter - cyfanswm dilynwyr (pob cyfrif Twitter) / ymgysylltiad (prif gyfrifon Twitter yn unig) | 25,283 o ddilynwyr ym mis Mawrth 2014 | | 25,283 o ddilynwyr | 38,909 / 2,300 | ⇧ | Cyfanswm ar ddiwedd mis Mawrth. O fis Ebrill 2014, mae cyfanswm y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad drwy'r prif gyfrif Twitter wedi'i ychwanegu. |
| | YouTube - ymwelwyr / munudau a wyliwyd | Cyfanswm o 20,177 / 39,325 yn 2013-14 | | 20,177 / 39,325 | 24,699 / 42,656 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. O fis Ebrill 2014, ychwanegwyd cyfanswm y munudau a wyliwyd ar YouTube. Gwyliwyd 3,555 o funudau ar gyfartaledd y mis o gymharu â 3,277 yn ystod yr un cyfnod y llynedd. |
| | Defnydd o Senedd TV - ymwelwyr / defnyddwyr | Cyfanswm o 67,059 / 6,191 yn 2013-14 | | 67,059 / 6,191 | 165,651 / 24,298 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. O fis Ebrill 2014, ychwanegwyd defnyddwyr Senedd TV. Cynnydd sylweddol yn nifer y gwylwyr a'r dilynwyr o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. |
| | Nifer yr ysgolion newydd sy'n ymgysylltu â thîm allgymorth y gwasanaeth addysg am y tro cyntaf | Cyfanswm o 106 2013-14 (44 allgymorth) | | 106 (44 allgymorth) | 97 (32 allgymorth) | ⇩ | Yn dilyn cyfnod prysur iawn o weithgarwch ymgysylltu rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2013, mae ffigurau 2014-15 wedi dychwelyd i lefelau mwy arferol. Y nod yw ymgysylltu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. |
| | Y traffig misol ar dudalennau Cofnod y Trafodion ar gyfartaledd - Cyfarfod Llawn yn unig | 7,578 ar gyfartaledd yn 2013-14 | | 7,578 | 5,670 | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. Mae'r gostyngiad yn rhannol o ganlyniad i fwy o ddefnydd o Senedd TV a chynnydd cysylltiedig o ran ymweliadau â thrafodion byw. |
| | Ymgysylltu rhyngwladol yn y Cynulliad ac oddi yno | cyfanswm o 200 yn 2013-14 (17 y mis ar gyfartaledd) | - | 200 | 225 | ⇧ | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. Bron 19 y mis o gymharu â 17 y mis yn ystod yr un cyfnod y llynedd. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013- Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| ***Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*** | | | | | | | |
| **8** | Ymgysylltu'n well â phobl Cymru | - | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Mae nifer o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cefnogi gwaith pwyllgorau, gyda'r nod o ddenu amrywiaeth ehangach o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad. Yn ystod yr ymchwiliad i Gamddefnyddio Alcohol a Sylweddau, cynhaliodd y pwyllgor arolwg o 600 o bobl. Ers mis Ionawr, cysylltwyd â dros 57 o sefydliadau i'w cynnwys yn ein gweithgarwch o ran ymgysylltu â phobl ifanc gan gynnwys ymweliadau â'r Cynulliad, ymweliadau oddi ar y safle neu ddatblygu ffyrdd o rannu gwybodaeth.<br><br>Arweiniodd wythnos allgymorth ac ymgysylltu'r Cynulliad yn Wrecsam rhwng 21 a 28 Mawrth at fwy o weithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol nag a welwyd erioed yn sgil un o ddigwyddiadau'r Cynulliad. Denwyd 232 o ddilynwyr i'r ffrwd Twitter corfforaethol yn ystod yr wythnos honno a chynyddodd ymweliadau ag YouTube 99% ym mis Mawrth o gymharu â mis Chwefror. At hynny, mae dros 10,000 o ddefnyddwyr wedi ymweld â'r sianel YouTube eleni ac mae gan gyfrifon corfforaethol y Cynulliad ar Twitter dros 27,000 o ddilynwyr bellach. Ym mis Chwefror, ymwelodd 5,777 o ddarllenwyr â blog 'Pigion', sy'n fwy o ymwelwyr nag erioed o'r blaen.<br><br>Eleni, mae dros 3,000 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y sgwrs genedlaethol am ostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed. Yn ystod wythnos #SeneddWrecsam, cynhaliwyd diwrnod digidol yng Ngholeg Cambria pan ymwelodd dros 300 o fyfyrwyr â bws y Cynulliad i drafod eu barn ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio.<br><br>Rydym wedi ymgynghori â defnyddwyr allweddol, yn allanol ac yn fewnol, fel rhan o'r 'Adolygiad o Gofnod Trafodion y Cynulliad'. Bellach, rydym yn ystyried elfennau mwyaf heriol yr |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| | | | | | | | adolygiad i ddarparu Cofnod Seneddol dwyieithog sy'n addas ar gyfer anghenion cyfathrebu'r unfed ganrif ar hugain, sydd ar gael yn gynt, sy'n hygyrch ac y gellir ei ailddefnyddio. Darperir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiwn yn ystod tymor yr haf cyn llunio adroddiad manylach yn yr hydref. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013- Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Lefel boddhad yr Aelodau o ran:*** | | | | | | | |
| 9 | Lwfansau a staffio | 8.30 yn 2013 | 8.00 | 8.30 | 8.70 | ⇧ | Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos gwelliant ar y sgorau lled gymaradwy yn arolwg 2013. |
| | Tŷ Hywel a'r Senedd | 7.60 yn 2013 | 8.00 | 7.60 | 7.80 | ⇧ | |
| | Sgôr boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn Nhŷ Hywel a'r Senedd | 6.60 yn 2013 | 8.00 | 6.60 | 7.50 | ⇧ | |
| | Lefel boddhad yr Aelodau ar gyfer TGCh yn y swyddfeydd etholaeth / rhanbarthol | 6.10 yn 2013 | 8.00 | 6.10 | 6.70 | ⇧ | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar y gyllideb, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 10 | Y Gyllideb - % y rhagolwg tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn | 0.07% ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | <1% | 0.07% | 0.10% | ⇨ | Y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yw tanwariant o £62,000 (neu 0.1%) o gyfanswm cyllideb o £50.598 miliwn. Drwy reoli a chynllunio gwariant yn rhagweithiol ers sawl blynedd, rydym wedi cyflawni'r targed tanwariant o 1% (£509,000). |
| | Y Gyllideb - gwariant yn erbyn proffil | 1.24% ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | o fewn 2% i'r proffil | 1.24% | 0.02% | ⇧ | Mae'r gwariant ar gyfer y flwyddyn o fewn 0.2% i'r rhagolwg. Cafodd gwariant yn erbyn y proffil ei reoli'n rhagweithiol yn ystod y flwyddyn gyda chyfarfodydd rheolaidd ynghylch y gyllideb ac adolygiadau o'r rhagolwg i sicrhau bod y Comisiwn o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. |
| | Targed Gwerth am Arian a chyflawniad | £508,000 ar ddiwedd y flwyddyn yn 2013-14 | £500,000 | £508,000 | £585,000 | ⇧ | Mae'r Comisiwn wedi defnyddio prosesau effeithiol o ran caffael a rheoli swyddi i sicrhau £584,000 arall o arbedion, gan ragori ar darged 2014-15. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer staff, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 11 | % absenoldeb oherwydd salwch | 2.44% (cyfartaledd treigl ym mis Mawrth 2014) | <3% | 2.44% | 3.30% | ⇩ | Y cyfartaledd treigl blynyddol, fel ym mis Mawrth. Mae hyn yn gyfystyr â 7.26 diwrnod fesul cyflogai o gymharu â chyfartaledd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 7.9 diwrnod. O fis Ionawr 2015, mae gwybodaeth a gasglwyd drwy bartneriaid busnes Adnoddau Dynol wedi caniatáu i ni gyflwyno ffigurau mwy cywir. Mae wedi rhoi gwell ddealltwriaeth i ni o'r rhesymau dros yr absenoldebau hynny hefyd a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r problemau hynny. |
| | % adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd | 89% | 100% | 89% | - | - | Y terfyn amser ar gyfer adolygiadau perfformiad staff yw 30 Ebrill 2015, felly ni cheir adroddiad ar alldro tan adroddiad dangosyddion perfformiad allweddol Ebrill – Mehefin 2015. |
| | Lefel ymgysylltiad staff (o'r arolwg staff) | 78% 2012 | 80% | 81% | | ⇧ | Canlyniad arolwg 2013 yn dangos bod 81% yn argymell y Cynulliad yn lle gwych i weithio. Mae dangosydd newydd o ran ymgysylltu â staff wedi'i ddatblygu a fydd yn ei gwneud yn bosibl meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill. Cynhelir yr arolwg staff nesaf ym mis Mai 2015. |
| | Nifer y staff - Nifer y bobl a'r nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) | 412 o bobl 393.87 FTE Mawrth 2014 | - | 412 o bobl 393.87 FTE | 437 o bobl 418.20 FTE | | Fel ym mis Mawrth. Y gyfradd drosiant ym mis Mawrth oedd 4.83%. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol

| Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TGCh, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 12 | % o dargedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos | 85.52 Ebrill – Rhagfyr 2014 | 100% | dd/b | 82.64% | ⇩ | Effeithiwyd ar y perfformiad cyffredinol rhwng mis Tachwedd a mis Chwefror yn sgil cyflenwi swydd wag bwysig ar y Ddesg Gymorth. Caiff sgorau'r cytundeb lefel gwasanaeth eu hadolygu fel rhan o'r gwaith parhaus i wella gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn deg ac yn addas i'r diben. |
| | Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9) | 8.6 Ebrill – Rhagfyr 2014 | 9.00 | dd/b | 7.9 | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Llywodraethu, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| 13 | Dyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu Aelodau a chyflenwyr o gymharu â'r targed | 3.55 ar gyfartaledd yn 2013-14 | <10 diwrnod | 3.55 | 3.94 | ⇩ | Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill – Mawrth. |
| | Nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd | Cyfanswm o 51 yn 2013-14 | - | 51 | 63 | - | Cyfanswm Ebrill – Mawrth. Atebwyd 59 allan o 63 o geisiadau ar amser. Roedd pedwar ymateb yn hwyr am fod angen ymgynghori'n allanol a golygu'r cynnwys yn sylweddol |
| | % y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol | 88% ar amser 2013-14 | 100% | 88% | 94% | ⇧ | |
| | Nifer yr argymhellion Archwilio Mewnol sy'n hwyr | 2 allan o 109 2013 -14 | Dim | 2 allan o 109 | 3 allan o 139 | ⇧ | Sefyllfa a nodwyd, fel ym mis Mawrth 2015. Mae'r rheolwyr yn parhau i roi nifer uchel o argymhellion ar waith. Mae tri argymhelliad sydd heb eu gweithredu ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r tri ohonynt, ac nid ydynt yn cynrychioli lefel ormodol o risg i Gomisiwn y Cynulliad. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Dangosyddion perfformiad corfforaethol


| | | Cymharydd | Targed | Ebr 2013-Maw 2014[1] | Ebr 2014 – Maw 2015[1] | | Naratif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nod: Defnyddio adnoddau'n ddoeth** | | | | | | | |
| ***Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer Cynaliadwyedd, gan gynnwys:*** | | | | | | | |
| **14** | Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | Blwyddyn sylfaen 2012-13 | Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn mis Mawrth 2021 | -8.5% | -4.00% | - | Fel ym mis Mawrth. Dechrau da i'r strategaeth lleihau allyriadau newydd. Mae defnydd o ynni wedi lleihau 4.6% o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, am fod ffactor trosi carbon Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi chwyddo eleni, roedd effaith negyddol ar allyriadau cronnol gan arwain at ostyngiad o 4% hyd yma. |
| | Gwastraff i safleoedd tirlenwi | 43 o dunelli ym mlwyddyn sylfaen 2010-11 | 0 tunnell erbyn 31 Mawrth 2015 | 6.4 tunnell | 4.7 tunnell | ⇧ | Fel ym mis Mawrth. Er i'r Cynulliad anfon llai a llai o wastraff i safleoedd tirlenwi yn ystod y flwyddyn, ni chyrhaeddwyd ein targed o beidio ag anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Rydym yn ymchwilio i opsiynau pellach i atgyfnerthu ein hymdrechion wrth symud ymlaen er mwyn lleihau'r swm o wastraff sy'n dal i fynd i safleoedd tirlenwi gymaint â phosibl. |
| ***Hynt Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol*:** | | | | | | | |
| **15** | Gwneud y gorau o'n hystâd | - | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | ⇨ | Gwnaed cynnydd da wrth sicrhau buddsoddiadau a gwelliannau a nodwyd ym mlaenraglen buddsoddi a rhaglen cynnal a chadw'r ystâd. Oherwydd mwy o alw am ddigwyddiadau yn y Senedd a'r Pierhead ynghyd â chyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor hwy, rydym wedi gorfod rheoli defnydd a wneir o'r ystâd yn ofalus er mwyn taro cydbwysedd rhwng anghenion busnes y Cynulliad ac anghenion Aelodau unigol ac etholwyr.<br><br>Yn ôl y ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd yng Nghynllun Rheoli Carbon y Cynulliad, mae'r Cynulliad wedi lleihau allyriadau ynni 35% ers blwyddyn sylfaen 2008/09. Mae'r Ymddiriedolaeth Garbon wedi cydnabod bod hyn yn safon ardderchog o berfformiad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r Cynulliad wedi llwyddo i sicrhau gostyngiad o 29% o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr net. |

Troednodyn 1. Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mawrth yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer canlyniadau arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen. (r) = diweddarwyd ers adroddiadau blaenorol.

# Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.


**Prydlondeb (KPI 2)**




**Naratif:** Perfformiad cyson uchel o ran prydlondeb gan barhau'r duedd ar gyfer 2013-14. Bellach, caiff canran y papurau pwyllgor a chanran cofnod trafodion y pwyllgorau a gyhoeddir eu mesur yn erbyn terfynau amser mwy heriol. Mae hyn wedi effeithio rywfaint ar lefel y perfformiad, ac mae'n golygu nad yw'n bosibl cymharu â 2013. Roedd gostyngiad yng nghanran y cofnod o drafodion pwyllgorau a gyhoeddwyd oddi mewn i'r terfyn amser ym mis Hydref am fod nifer annisgwyl o gyfarfodydd (28 o gymharu ag 16 fel arfer). Roedd gostyngiad yng nghanran y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd oddi mewn i'r terfyn amser ym mis Mawrth oherwydd gwall technegol â'r system bleidleisio.

---

**Datblygiad Proffesiynol (KPI 3)**





**Naratif:** Mae nifer y dysgwyr Cymraeg wedi parhau'n gyson yn dilyn cynnydd sylweddol ym mis Hydref. Mae cyfanswm yr Aelodau Cynulliad newydd a'r staff cymorth newydd sy'n ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (gan gynnwys gwersi Cymraeg) yn parhau i gynyddu.

# Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.


**Ymgysylltu (KPI 6)**





**Naratif:** Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r Cynulliad bob blwyddyn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r tabl manwl hefyd yn dangos lefel uchel o foddhad cwsmeriaid ymhlith ymwelwyr â'r Senedd.

---

**Proffil Allanol (KPI 7)**








**Naratif:** Cynnydd graddol parhaus o ran dilynwyr ar Twitter. Mae'r amrywiad o ran ymweliadau ag YouTube yn adlewyrchu poblogrwydd nifer o fideos YouTube, fel y rhai sy'n dathlu 15 mlynedd o ddatganoli a'r ymchwiliad i Sylweddau Seicoweithredol Newydd a chyfnodau tawel dros y toriad.

Arweiniodd wythnos allgymorth ac ymgysylltu'r Cynulliad yn Wrecsam rhwng 21 a 28 Mawrth at fwy o weithgarwch yn y cyfryngau cymdeithasol nag a welwyd erioed yn sgil un o ddigwyddiadau'r Cynulliad. Mae'r tablau manwl yn dangos nifer y bobl a fu'n ymgysylltu.

# Atodiad - Graffiau


Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.




**Naratif:** Mae'r cynnydd sydyn mewn ymweliadau â Senedd.tv o fis Medi yn cyd-fynd â lansio platfform newydd Senedd.tv. Mae'r gostyngiadau yn nifer yr ymweliadau â thudalennau yn adlewyrchu cyfnodau yn ystod y toriad.

---

**% absenoldeb salwch (Staff y Comisiwn) - cyfartaledd blynyddol treigl (KPI 11)**





**Naratif:** Roedd y ffigurau ar gyfer absenoldeb salwch yn gyson is na'r un cyfnodau y llynedd hyd at fis Rhagfyr 2014. Y rheswm dros y cynnydd sydyn o fis Ionawr 2015 yw am fod ffigurau mwy cywir yn cael eu casglu bellach drwy Bartneriaid Busnes Adnoddau Dynol.

# Atodiad - Graffiau

Mae'r graffiau hyn yn dangos y tueddiadau ar gyfer rhannau o'r wybodaeth yn y tablau manwl.

**Amserlen ddeddfwriaethol: yr amser a gymerwyd i gwblhau pob cyfnod**




**Cyf Bil (*Cyfnod fel ar 31 Mawrth 2015)***

**1** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (*Cwblhawyd 1 Mai 2014)*

**2**Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (gweler y naratif)

**3** Deddf Addysg (Cymru) (*Cwblhawyd 12 Mai 2014)*

**4** Deddf y Sector Amaethyddiaeth (Cymru) (*Cwblhawyd 30 Gorffennaf 2014)*

**5** Deddf Tai (Cymru) (*Cwblhawyd 17 Medi 2014)*

**6** Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) (*Cyfnod 1)*

**7** Deddf Addysg Uwch (Cymru) (Cwblhawyd 13 Mawrth 2015*)*

**8** Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) (Yn aros am Gydsyniad Brenhinol*)*

**9** Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Yn aros am Gydsyniad Brenhinol)

**10** Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) (Cyfnod 1)

**11** Bil Cynllunio (Cymru) (Cyfnod 3)

**12** Bil Cymwysterau Cymru (Cyfnod 2)

**13** Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (Cyfnod 1)

**14** Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (Cyfnod 1)

**15** Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) (Cyfnod 1)

**16** Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) (Cyfnod 1)

**Naratif:** Mae'r graff yn dangos yr amser a gymerodd pob Bil i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol. Mae'n dangos y Biliau sydd wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol (h.y. y rhai sydd wedi'u cwblhau) a'r rhai a oedd yn dal i fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2015.

Ar 9 Chwefror 2015, cyhoeddodd y Goruchaf Lys ei Ddyfarniad ynghylch y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru). Canfu'r Goruchaf Lys nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i weithredu'r Bil ar ei ffurf bresennol. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.53, gall unrhyw Aelod Cynulliad gynnig bod y Bil yn symud ymlaen i'r Cyfnod Ailystyried, ond nid oes unrhyw gynnig o'r fath wedi'i wneud hyd yma.